



Annwyl

6 Tachwedd 2020

Cais am Wybodaeth – ATISN 14352

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth wnaethoch fanylu ar 10 Rhagfyr. Roeddech yn gofyn am unrhyw ohebiaeth sydd gennym rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrrff hyd fraich (y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa, Cadw ac ati) ers mis Tachwedd 2019 yn ymwneud â'r wyl "Festival of Great Britain and Northern Ireland".

Gallaf gadarnhau ein bod yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani sydd wedi'i amgáu. Bernir bod peth o'r wybodaeth hon wedi'i hesemptio rhag ei datgelu o dan adran 40 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gwybodaeth bersonol. Nodir y rhesymau llawn dros yr esemptiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, cewch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu anfonwch e-bost at: Freedom.ofinformation@gov.wales. Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Hefyd mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

The Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Fodd bynnag, noder na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi mynd drwy ein proses adolygu mewnol.

Yn gywir



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Llywodraeth Cymru /
Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adran 40(2) – Data Personol

Mae adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b), yn darparu esemptiad absoliwt pe bai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 ('Deddf 2018') ac mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw a nodwyd neu y gellir ei adnabod. Mae unigolyn byw adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu i un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o'r wybodaeth yn y wybodaeth a ddelir gan eich cais, yn yr achos hwn, yn cynnwys data personol trydydd parti. Yn benodol, mae hyn yn ymwneud ag enwau swyddogion, eu cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn uniongyrchol.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag cael eu rhyddhau pe bai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR. Credwn mai'r egwyddor sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r cyntaf. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddata personol fod wedi'u:

"prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â phwnc y data"

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hyn yn nodi:

"mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid y pwnc data y mae angen diogelu data personol, yn enwedig pan fo pwnc y data yn blentyn".

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol:

1. Y prawf buddiant cyfreithlon: A yw'r cais am wybodaeth yn seiliedig ar fuddiant cyfreithlon;
2. Y prawf angenrheidrwydd: A oes angen datgelu'r wybodaeth/cadarnhad neu wadu ei bod yn cael ei gadw er mwyn bodloni'r buddiant cyfreithlon dan sylw;
3. Y prawf cydbwysu: A yw'r uchod yn diystyru buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid pwnc y data.

Nodir ein hystyriaeth o'r profion hyn isod:

1. Prawf Buddiant Cyfreithlon

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod buddiant dilys mewn gallu nodi'r partïon sy'n ymwneud ag unrhyw gyfathrebu er mwyn dilyn llif y cyfathrebu hwnnw a deall y

farn a'r safbwyntiau a fynegir gan bob plaid. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod unrhyw reswm dilys pam y byddai angen rhyddhau'r data personol er mwyn dilyn a deall y cyfathrebu hynny. Barn y sefydliadau perthnasol yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cyfathrebu yn hytrach na barn yr unigolion dan sylw. Felly, mae'n amherthnasol pwy wnaeth y sylwadau hynny. Ni all Llywodraeth Cymru nodi unrhyw fuddiant dilys arall yn och chi na'r cyhoedd sy'n derbyn y data personol a gasglwyd gan eich cais.

2. A oes angen datgelu?

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen datgelu'r wybodaeth personol a gasglwyd gan eich cais. Hyd yn oed wrth gadw'r data personol yn ôl, mae dilyn y trafodaethau a nodi'r safbwyntiau a fynegwyd gan bob sefydliad yn syml. Felly, nid ydym yn credu bod angen datgelu'r data personol er mwyn caniatáu i'r sgysiau gael eu dilyn.

Nid ydym ychwaith yn credu bod angen datgelu'r data personol er mwyn caniatáu i aelodau'r cyhoedd gyfrannu at hyn, neu drafodaethau ar y mater hwn nac unrhyw fater arall yn y dyfodol. Mae mecanweithiau y gall y cyhoedd eu defnyddio i gysylltu â'r meysydd polisi perthnasol, megis blychau post generig, ymgynghoriadau cyhoeddus, neu ysgrifennu at Weinidog, etc.

3. Y Prawf Cydbwyso

Gan ein bod wedi dod i'r casgliad nad oes angen datgelu pwy yw'r swyddogion, nid yw'n ofynnol cydbwyso hawliau a buddiannau'r swyddogion hynny yn erbyn hawliau'r unigolyn sy'n gwneud y cais, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

I gloi, gan na fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn ddilys o dan Erthygl 6(1)(f), a chan nad ystyrir bod unrhyw amod arall yn Erthygl 6 yn gymwys, ni fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon o fewn ystyr yr egwyddor diogelu data gyntaf. Felly, cadwyd yr wybodaeth yn ôl o dan adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae adran 40 yn eithriad absoliwt ac nid yw'n ddarostyngedig i'r prawf budd y cyhoedd.